COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU IEUENCTID (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 1 YN FLAENOROL) GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB YMLAEN DYDD LLUN 1 MEHEFIN 2026 YN 11:00

Presennol

Cynghorydd H Griffiths – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | HJ David | JH Tildesley MBE | AJ Williams |

Presennol o bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| D M Hughes | J Llewellyn-Hopkins | T Thomas | A Wathan |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

HJ David, R J Smith ac E D Winstanley

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Martyn Jones | Aelod y Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Gayle Shenton | Pennaeth Dysgu |
| Tanya Smith | Pennaeth Strategaeth, Blynyddoedd Cynnar ac Ieuenctid |
| Gail Biggs | Rheolwr Grŵp – Cynhwysiant |
| Darren Jones | Rheolwr Grwp – Gwella Ysgolion |
| Louise Blatchford | Cyfarwyddwr y Consortiwm Canolog a Deheuol |
| Natalie Gould | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Consortiwm Canolbarth a'r De |
| Richard George | Prif Gynghorydd Cwricwlwm, Addysgu ac Asesu – Consortiwm Canolbarth a De Cymru |

Penaethiaid:

| | |
|---|---|
| Derke Meade | Pennaeth, Ysgol Gyfun Bryntirion |

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Jessica McLellan | Swyddog Craffu |
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu Dros Dro |

Datganiadau o Fuddiannau

Y Cynghorydd Amanda Williams – Personol – Eitem 4 – Llywodraethwr Cymunedol a Chadeirydd Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Coety
Y Cynghorydd Jon-Paul Blundell – Personol – Eitem 4 – Fel cyn Aelod Cabinet dros Addysg

## 95. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu ar Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid dyddiedig 9 Chwefror 2026 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 1 Mehefin 2026 |

## 96. Gwella Ysgolion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad, a chael trafodaeth fanwl gydag Aelod Cabinet, Uwch Swyddogion a Gwahoddedigion, gwnaeth y Pwyllgor y ceisiadau canlynol am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Ceisiadau am Wybodaeth Ychwanegol**<br><br>1. Darllenwyd y cwestiynau gan y Cyngor Ieuenctid (CI) a restrir isod, rhoddwyd atebion byr a dywedodd y Pennaeth Dysgu y byddai ymatebion ysgrifenedig llawn yn cael eu hanfon at y CI a **gofynnodd** y Pwyllgor am gopïau i Aelodau'r Pwyllgor:<br><br>a. Yn y cynllun (strategol 3 blynedd) newydd, a fydd ymwybyddiaeth o Ofalwyr Ifanc yn cael ei |

| | |
|---|---|
| | chodi?<br>b. Oes cynllun i gynyddu’r cymorth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol?<br>c. Beth sy'n cael ei wneud o ran (rheoli) bwlio mewn ysgolion?<br>d. Beth sy'n cael ei wneud i helpu’r rhai sydd â phresenoldeb gwael oherwydd problemau lles?<br><br>Trafododd y Pwyllgor gefnogaeth i ddysgwyr sy'n cael eu haddysgu gartref a’r pontio yn ôl i ysgolion ar gyfer y cyfnod arholiadau a chael mynediad at gyrsiau yn y dyfodol, a **gofynnwyd am** ymateb ysgrifenedig gan y Rheolwr Ymgysylltu ag Addysg i'r mesurau sydd ar waith i gefnogi a sicrhau bod disgyblion a addysgir gartref yn derbyn addysg ddigonol, ac am ddiweddariad ar amserlennu briffio Pob–Aelod y gofynnwyd amdano yn flaenorol ar y pwnc hwn. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 1 Mehefin 2026 |

**97. Enwebu Pencampwr Rhianta Corfforaethol**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Enwebu’r Cynghorydd Elaine Winstanley i gynrychioli Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid fel Gwahoddedig i gyfarfodydd Pwyllgor Cabinet Rhianta Corfforaethol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 1 Mehefin 2026 |

**98. Adroddiad Gwybodaeth - Perfformiad Corfforaethol Chwarter 3 2025-26**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor gynnwys adroddiad Perfformiad Corfforaethol Chwarter 3 2025-26, Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol Chwarter 3 2025-26 a'r Traciwr Rheoleiddiol a ddiweddarwyd ar gyfer Chwarter 3 2025-26 o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, ac ystyriodd y dangosfwrdd a'r traciwr wrth ystyried adroddiad Blaenraglen Waith y Pwyllgor. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 1 Mehefin 2026 |

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

## 94. Diweddariad am y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys y canlynol, nodwyd y Daflen Monitro Gweithredu Argymhellion i olrhain ymatebion i Argymhellion gan y Pwyllgorau mewn cyfarfodydd blaenorol, yn Atodiad B, a nododd y byddai'r Flaenraglen Waith, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor, yn cael ei hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol er gwybodaeth.<br><br>a. O ystyried yr ehangu posibl yn y dyfodol i ddarparu prydau ysgol am ddim i ddysgwyr ysgolion uwchradd y mae eu rhieni yn derbyn Credyd Cynhwysol, gofynnodd y Pwyllgor fod yr adroddiad Bwyta'n Iach mewn Ysgolion a drefnwyd ar gyfer eu cyfarfod ym mis Gorffennaf yn cynnwys gwybodaeth ynghylch a oes cyfleusterau mewn ysgolion uwchradd ar waith i wireddu gofynion y polisi posibl hwn yn y dyfodol, o ran capasiti neuaddau bwyta/adeiladau presennol, cyfleusterau mewn ceginau, ac ati yn debyg i rai materion a gododd wrth gyflwyno'r drefn mewn ysgolion cynradd.<br><br>b. Bod Cynllun Strategol drafft y Gyfarwyddiaeth sydd i gael ei adrodd i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol yn cynnwys Adran ar bobl ifanc Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) yn nodi'r hyn mae'r Awdurdod yn ei wneud i atal pobl sy'n gadael yr ysgol rhag dod yn NEET ac unrhyw bolisi i gefnogi ysgolion. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 1 Mehefin 2026 |

## 95. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 1 Mehefin 2026 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Turfway y cyfarfod yn 12:15.

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**